Templed cylchlythyr

Pwnc: Peidiwch â gadael i'ch batri achosi'r tân nesaf 🔥

Cyn-destun: Peidiwch byth â thaflu batris neu nwyddau trydanol yn y bin

Annwyl [enw cyntaf],

Peidiwch byth â thaflu batris neu nwyddau trydanol yn y bin - gan eu bod yn gallu cynnau tanau 🔥

Gall batris bin a nwyddau trydanol fel fêps gynnau tanau pan fyddant wedi'u malu neu eu difrodi mewn bin neu lorïau ailgylchu. Mae mwy a mwy o'r tanau hyn yn digwydd ledled y DU, gan beryglu bywydau go iawn ac yn llygru ein cymunedau.

Ond gallwn helpu i'w stopio gyda'n gilydd.

Beth i'w wneud gyda batris a nwyddau trydanol - y rheol syml

Peidiwch byth â thaflu batris neu nwyddau trydanol yn eich biniau sbwriel neu ailgylchu cyffredinol - gartref, yn y gwaith neu ar y stryd. Ailgylchwch nhw bob amser ar wahân, ar bwynt ailgylchu batri neu drydanol penodol.

Y newyddion da? Mae'n haws nag yr ydych chi'n meddwl! Gallwch ddod o hyd i un o filoedd o fannau gollwng lleol ar Recycle Your Electricals' Locator. [mewnosodwch wybodaeth am bwynt neu leoliad ailgylchu lleol]

Batris a 'batris cudd'

Os yw eitem yn goleuo, yn symud, yn canu grwndi, neu'n pwffian ac nad yw'n cael ei blygio i mewn, mae'n cael ei bweru gan batri - ac ni ddylid byth ei daflu yn y bin.

Mae eitemau bach bob dydd fel fêps, clustffonau a theganau plant yn aml yn cynnwys 'batris cudd' y tu mewn. Maent hefyd yn cynnwys deunyddiau

gwerthfawr fel lithiwm, aur, dur a chopr, y gellir eu hadfer a'u hailgylchu i unrhyw beth o feysydd chwarae plant i offer meddygol sy'n achub bywydau.

Cyn ailgylchu eich nwyddau trydanol yn ddiogel:

👉 Tynnwch y batris yn ddiogel os yn bosibl a'u hailgylchu ar wahân mewn pwynt ailgylchu batri.

👉 Os na allwch dynnu'r batris yn ddiogel, ailgylchwch y nwyddau trydanol cyfan yn eich pwynt ailgylchu trydanol agosaf. Defnyddiwch Recycle Your Electricals' Locator i ddod o hyd i'ch un chi.

Peidiwch ag anghofio - os na allwch ei drwsio, ei roi neu ei werthu, ailgylchwch eich hen nwyddau trydanol bob amser! **Gellir ailgylchu unrhyw beth sydd â phlwg, batri neu gebl** a 'i droi'n rhywbeth newydd.

Diolch am ein helpu i gadw ein cymuned yn ddiogel.